Academi Ifanc y DU yn lansio menter i gefnogi ymchwilwyr sy'n agored i risg wrth i geisiadau am aelodaeth Academi Ifanc y DU ailagor

Mae Academi Ifanc y DU wedi lansio menter newydd i gefnogi unigolion ar ddechrau eu gyrfa yn y DU a thu hwnt sy'n agored i risg, fel rhan o'r cylch o geisiadau am aelodaeth newydd a gyhoeddwyd yn ddiweddar.

Nod y cynllun newydd hwn, sy'n cael ei arwain ar y cyd gan aelodau o Academi Ifanc y DU Ana Blanco Alvarez ac Amit Pujari, yw cefnogi academyddion a gweithwyr proffesiynol o gymunedau ar y cyrion a chymunedau sydd wedi'u tangynrychioli i wneud cais am aelodaeth, cynnig datblygiad sgiliau, a helpu i amlygu lleisiau dros newid positif.

Mae'r fenter yn rhan o raglen fyd-eang sydd hefyd wedi cael ei rhoi ar waith yn llwyddiannus gan Academïau Ifanc eraill ar hyd a lled y byd, gan gynnwys Academi Ifanc yr Alban (YAS), The College of New Scholars, Artist and Scientists yng Nghanada a'r Global Young Academy.

Mewn cydweithrediad gyda'r Council for At-Risk Academics (Cara), bydd Academi Ifanc y DU yn cynnig aelodaeth i academyddion agored i risg, sefydlu cynllun mentora a gweithdai blynyddol, sicrhau amlygrwydd i adnoddau academaidd, a helpu academyddion i integreiddio i fudiadau a sefydliadau yn y DU. Mae cynlluniau ar gyfer y dyfodol yn cynnwys ehangu'r fenter gyda phartneriaid prosiect newydd i gefnogi unigolion mewn perygl ar draws amrywiol sectorau y tu hwnt i'r byd academaidd.

Gwahoddir academyddion mewn perygl o fewn rhwydwaith Cara i wneud cais am aelodaeth drwy ffurflen gais benodedig, gyda chymhwystra yn cael ei wirio gan Cara.

Dywedodd Linda Oyama, microbiolegydd a darlithydd ym Mhrifysgol Queen's Belfast, a chynrychiolydd Grŵp Gweithredol Academi Ifanc y DU: "Mae lansio'r fenter hon gan Academi Ifanc y DU yn nodi ymrwymiad sylweddol i gefnogi unigolion gyrfa gynnar sy'n agored i risg ar draws sectorau amrywiol. Trwy greu partneriaeth â Cara, ein nod yw gweithio gydag unigolion o'u rhwydwaith er mwyn darparu cyfleoedd mentora hanfodol a chefnogi eu hintegreiddiad i rwydweithiau academaidd yn y DU.

"Nid yn unig yw'r fenter hon yn cynnig cyfleoedd ar gyfer datblygiad personol a datblygu gyrfa, ond mae hefyd yn cryfhau ein gallu ar y cyd i fynd i'r afael â heriau byd-eang drwy amlygu lleisiau sy'n agored i risg wrth datblygu datrysiadau ystyrlon a chydweithredu byd-eang."

Ochr yn ochr â'r cynllun i rai sy'n agored i risg, mae Academi Ifanc y DU hefyd yn derbyn ceisiadau ar gyfer ei aelodaeth gyffredinol, sydd ar agor i bob unigolyn gyrfa gynnar o gefndiroedd academaidd ac anacademaidd fel ei gilydd, gan gynnwys gweithwyr proffesiynol agored i risg, sy'n angerddol dros yrru datrysiadau arloesol ar gyfer newid cadarnhaol ar draws bob sector.

Wedi'i ffurfio yn 2022, mae Academi Ifanc y DU yn rhwydwaith rhyngddisgyblaethol o ymchwilwyr a gweithwyr proffesiynol gyrfa gynnar a sefydlwyd i fynd i'r afael â materion cymdeithasol a hyrwyddo newid ystyrlon. Mae'r Academi Ifanc yn darparu fforwm lle gall arweinwyr newydd o sectorau amrywiol gyfnewid syniadau, rhannu arbenigedd a chymryd rhan mewn trafodaethau polisi lleol a byd-eang. Mae'r cynllun i rai sy'n agored i risg yn un enghraifft o fenter sy'n cael ei gyrru a'i datblygu gan ei haelodau er mwyn delio gyda heriau presennol yn y DU.

Mae’r cylch hwn o geisiadau i Academi Ifanc y DU yn cau am 3pm (BST) ddydd Mercher 9 Hydref 2024. Bydd yr ymgeiswyr yn cael gwybod am y canlyniad erbyn gwanwyn 2025, a bydd eu haelodaeth yn ddilys am bum mlynedd.